Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

CYNGOR
GWYNEDD

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

**Awst 2024**

**Cynllun Celf Gyhoeddus Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

**Artistiaid wedi eu penodi**

Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu artistiaid ar gyfer Porthmadog, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Bethesda a Llanberis i greu celf sy'n godi ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a chyfleu stori a chymeriad y diwydiant Llechi ym mhob ardal. Mae gwaith cysylltiedig hefyd yn cael ei gomisiynu yn Nhywyn.

Ariennir y gosodiadau celf gan Lywodraeth Prydain drwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, a chynllun Llewyrch o'r Llechi Cyngor Gwynedd, rhaglen buddsoddiad ddiwylliannol.

Mae cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu wedi cymryd lle er mwyn bwydo i mewn barn a syniadau'r gymuned leol. Bydd dehongliad dychmygus a chreadigol gan bob artist yn y gwahanol ardaloedd, a fydd yn cynnwys eu stamp unigryw.

Bydd yr artistiaid yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol yn yr hydref i ddatblygu eu syniadau, a bydd y celf yn cael eu gosod tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Fel rhan o gynllun ehangach i adfywio canol trefi, mae cynlluniau hefyd i ddatblygu celf cyhoeddus yn yn Y Bala, Bangor, Harlech a Phwllheli ac fe fydd mwy o wybodaeth am y cynlluniau hynny yn cael eu rhyddhau yn fuan.

**Porthmadog a Llanberis**



Penodwyd yr artist lleol, Howard Bowcott o Benrhyndeudraeth, i greu gosodiadau sy'n adlewyrchu hanes tref Porthmadog a'i phwysigrwydd yn cludo llechi i bedwar ban y byd. Mae hefyd wedi ei gomisiynu i greu gwaith celf yn Llanberis. Mae Howard yn enwog am greu celf llechi nodedig i dref Blaenau Ffestiniog ac mae'n edrych ymlaen at gyfrannu celfyddyd gyfoes pellach wedi ei ysbrydoli gan y tirwedd llechi yn ei filltir sgwar.

Dywedodd: "Rwyf wedi bod yn gwneud gwaith celf am y chwareli llechi ers rhyw hanner can mlynedd bellach, felly rwy'n falch iawn o barhau â'm cysylltiad â llechi a helpu i hyrwyddo statws Safle Treftadaeth y Byd  y dirwedd a'r diwylliant arbennig iawn hwn.

“Ym Mhorthmadog byddaf yn cysylltu'r llechi â'r môr, gan greu pedair colofn arwyddbost a fydd yn cysylltu o amgylch y dref ac yn adrodd hanes y llechi sy'n cael eu cludo o Borthmadog ar draws y byd, ar y sgwneri llechi hardd.

“Yn Llanberis byddaf yn dathlu'r chwarelwyr ac enwau ponciau chwarel Dinorwig, yn ogystal â'r bywyd domestig a fu'n sail i'r diwydiant. Mae'r Gymraeg yn rhedeg trwy bob agwedd y ddau safle yma, a bydd hyn yn cael ei gyfleu yn y gwaith."

**Penygroes**



Mae Angharad Pearce Jones, y gof sy'n enedigol o'r Bala, wedi ei chomisiynu i greu cerflun ar gyfer Penygroes. Angharad yw enillydd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf eleni. Bydd Angharad yn cymryd ei ysbrydoliaeth o dirlun hanesyddol y chwareli yn ardal Dyffryn Nantlle a'r gwahanol storïau sydd ynghlwm yno, i greu ei cherflun.

Medd Angharad: " Mae'n fraint ennill un o gomisiynau celf gyhoeddus  ardaloedd Tirwedd Llechi Gogledd Cymru. Mae'r broses ymchwil wedi dechrau a dwi'n edrych ymlaen at weithio gyda phobl ifanc Penygroes ym mis Medi, i ddatblygu darn o gelf  sy'n adlewyrchu tirwedd ôl-ddiwydiannol chwareli Dyffryn Nantlle a diwylliant llenyddol cryf yr ardal arbennig hon. "

**Blaenau Ffestiniog**



Cwmni lleol sy'n fuddugol ar gyfer y comisiwn i greu murlun yn nhref Blaenau Ffestiniog. Mae Original Roofing Company yn hanu o'r dref ac yn adnabyddus fel cwmni sy'n cynllunio celf ddychmygus wrth drwsio a gosod toeau a thalcenni waliau llechi yn yr ardal. Mi fydd cyfle iddynt fynegi naws arbennig diwydiant llechi'r ardal hon, megis y Car Gwyllt, oherwydd eu cysylltiad clos efo'r dref a'i hanes.

“Rydym yn hapus iawn o gael y cyfle i weithio ar y prosiect celf yma ym Mlaenau Ffestiniog. Mae gwireddu’r celf yn ein bro enedigol yn fraint mawr a gobeithio y gallwn adael gwaddol gwerthfawr i bawb ei fwynhau am flynyddoedd i ddod.”

**Bethesda**

Fe fydd y comisiwn yma yn rhan o gynllun adnewyddu adeilad Yr Hen Bost yng nghanol tref Bethesda gyda’r celf yn cael ei osod ar wyneb yr adeilad yn dilyn y gwaith adnewyddu. Gwneuthurwr a dylunydd yw’r artist buddugol Ann Catrin Evans a. mae ei gwaith i’w weld yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Bydd Ann yn cyd-weithio gyda'i mab Joe i greu gwaith fydd yn nodi hanes Chwarel Penrhyn ac yn defnyddio’r dechneg o ysgathru llechi sy’n nodweddiadol o ardal Dyffryn Ogwen i greu’r celf.

"Teimlwn yn hynod ffodus ein bod wedi cael y cyfle i weithio ar brosiect mor gyffrous. Rydym yn anelu at greu ychwanegiad at y stryd y mae pobl Bethesda yn falch ohoni. Dathlu hanes cyfoethog diwydiant llechi Cymru, talu gwrogaeth i'r gorffennol, defnyddio technegau'r oes ac ymgorffori technoleg heddiw."



Am fwy o wybodaeth am y prosiectau celf a rhaglen Llewyrch o'r Llechi, e-bostiwch llechi@gwynedd.llyw.cymru, neu @llechicymru ar y cyfryngau cymdeithasol